Adrodd ar Adran 6

Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Adroddiad 2025 **Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau**	
Enw y Cyngor Tref neu Gymuned:	Cyngor Cymuned Llangernyw
Grŵp:	3

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

- *Disgrifiad byr o'r Cyngor, ei swyddogaethau a'r cyd-destun o ran*
  - *sut y gallai helpu bioamrywiaeth (trwy ei swyddogaethau rheoli tir, cyllid grant, gweithgareddau addysgol e.e.)*
  - *graddfa ofodol a lle (e.e. faint o dir mae'n ei gynnwys, poblogaeth, praesept?)*
  - *cyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd (e.e. a yw'n destun Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?)*

Mae Cyngor Cymuned Llangernyw yn gorff democrataidd lleol sy'n cynrychioli buddiannau cymuned Llangernyw ac yn gweithredu fel llais ffurfiol y gymuned ar faterion lleol. Ei brif rôl yw hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal, a gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, cyrff cyhoeddus eraill a sefydliadau cymunedol.

Cefnogi bioamrywiaeth

Gall Cyngor Cymuned Llangernyw gyfrannu at gefnogi a gwella bioamrywiaeth ar lefel leol drwy:

- berchnogaeth neu reolaeth dros asedau cymunedol megis mannau gwyrdd, mynwentydd, tiroedd bach naturiol a photiau blodau;
- cefnogi a hwyluso prosiectau bioamrywiaeth dan arweiniad y gymuned;
- cyfrannu at brosiectau amgylcheddol lleol;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy ddigwyddiadau cymunedol a gweithio gyda ysgolion, grwpiau gwirfoddol a phartneriaid lleol;
- dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio drwy gyflwyno sylwadau ar geisiadau datblygu sy'n effeithio ar yr amgylchedd lleol.

Graddfa ofodol a lle

Mae Cyngor Cymuned Llangernyw yn gwasanaethu ardal gymunedol benodol, yn bennaf wledig, gyda phoblogaeth gymharol fach. Mae ei weithgarwch yn canolbwyntio ar dir ac asedau o fewn ffiniau'r gymuned, ac fe'i hariannir drwy bresept y dreth gyngor, ynghyd â grantiau allanol pan fo'n berthnasol.

Cyflawni gwasanaethau i'r cyhoedd

Mae Cyngor Cymuned Llangernyw yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf drwy weithredu mewn modd cynaliadwy, hyrwyddo gofal am yr amgylchedd naturiol a chefnogi bioamrywiaeth er budd y gymuned bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Adroddiad Gweithredu 2023 - 2025			
Amcan NRAP	**Camau gweithredu i...**		**Wedi eu monitro gan:**
1	-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	Ystyried effeithiau ar fioamrywiaeth fel rhan o drafodaethau'r Cyngor ar brosiectau, cynnal a chadw asedau, a mentrau newydd. Defnyddio egwyddor "gwella lle bo modd" er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'r Cyngor yn cyfrannu'n gadarnhaol at natur leol. Blaenoriaethu contractwyr a chyflenwyr sy'n defnyddio dulliau cynaliadwy ac sy'n sensitif i fioamrywiaeth. Osgoi defnyddio cemegau niweidiol (e.e. chwynladdwyr) lle bo dewisiadau amgen ecolegol ar gael. Annog defnyddio deunyddiau lleol, naturiol neu ailgylchadwy mewn prosiectau a gynhelir gan y Cyngor.	CWG
	-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	Rhannu gwybodaeth am fioamrywiaeth leol drwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor (e.e. gwefan, cyfryngau cymdeithasol, hysbysfyrddau neu gylchlythyrau). Hyrwyddo digwyddiadau a mentrau sy'n ymwneud â natur a'r amgylchedd. Cefnogi gweithgareddau cymunedol megis plannu blodau gwyllt a ddiwrnodau gwirfoddoli. Cydweithio ag ysgolion lleol i hyrwyddo dysgu am fioamrywiaeth. Annog cyfranogiad y gymuned mewn digwyddiadau.	CWG
2	-diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd	Ystyried rhywogaethau neu gynefinoedd dan fygythiad wrth wneud penderfyniadau lleol. Defnyddio gwybodaeth leol a mewnbwn gan bartneriaid neu wirfoddolwyr lle bo'n briodol. Annog arferion cynnal a chadw sy'n sensitif i natur ar dir neu asedau'r Cyngor. Osgoi neu leihau gweithgareddau sy'n niweidio cynefinoedd, yn enwedig yn ystod tymhorau sensitif (e.e. tymor nythu).	CWG

		Cefnogi mentrau bach i wella cynefinoedd, megis plannu planhigion brodorol neu greu llochesi bywyd gwyllt. Codi ymwybyddiaeth o arferion sy'n niweidio rhywogaethau a chynefinoedd (e.e. taflu sbwriel, defnyddio cemegau). Annog ymddygiad cyfrifol ymhlith y gymuned wrth ddefnyddio mannau naturiol.	
3	-adfer & chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Annog arferion rheoli sy'n cefnogi adfer naturiol, gan leihau ymyrraeth lle bo modd. Cefnogi prosiectau bach i wella ansawdd cynefinoedd presennol. Cefnogi creu cynefinoedd newydd megis dolydd blodau gwyllt Blaenoriaethu defnyddio rhywogaethau brodorol a dulliau plannu sy'n addas i'r ardal leol. Integreiddio creu cynefinoedd mewn prosiectau cymunedol a gwaith cynnal a chadw Annog cysylltedd rhwng cynefinoedd presennol drwy blannu a rheoli sensitif. Ystyried cysylltedd ecolegol wrth wneud penderfyniadau ar brosiectau lleol.	CWG
4	-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol	Annog lleihau sbwriel, llygredd plastig a gwastraff mewn mannau cyhoeddus a naturiol. Hyrwyddo arferion cynaliadwy megis peidio a defnyddio cemegau niweidiol ar dir cymunedol. Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynnol cyffredin a'u heffaith ar natur leol. Annog adrodd am rywogaethau goresgynnol i'r awdurdodau perthnasol neu sefydliadau arbenigol.	CWG
5	-defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth	Defnyddio gwybodaeth leol, arsylwadau cymunedol a data presennol i gefnogi penderfyniadau'r Cyngor. Ystyried tystiolaeth amgylcheddol wrth gynllunio prosiectau neu weithgareddau. Annog cyfranogiad y gymuned	CWG

		Rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r gymuned drwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor. Cefnogi rhannu data gyda phartneriaid, lle bo'n briodol, i gryfhau mentrau lleol. Cefnogi gwelliant parhaus drwy ddysgu o brofiad.	
6	-cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill	Ymgysylltu â sefydliadau lleol, ysgolion, grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol i gyfnewid gwybodaeth a dulliau arfer da. Cefnogi'r rhwydweithiau lleol er mwyn hybu cydweithredu a chyfleoedd mentora. Cefnogi grwpiau eraill i wella eu sgiliau mewn rheoli cynefinoedd, monitro rhywogaethau a gweithgareddau addysgol. Cynorthwyo grwpiau a sefydliadau lleol i gyflwyno prosiectau amgylcheddol neu bioamrywiaeth. Hyrwyddo prosiectau llwyddiannus i'r gymuned ehangach fel enghreifftiau o arfer da.	CWG

Arolwg o ddyletswydd Adran 6 2023 - 2025	
Beth sydd wedi gweithio'n dda?	Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer 2023–2025 wedi darparu fframwaith clir i Gyngor Cymuned Llangernyw i gynllunio prosiectau amgylcheddol a bioamrywiaeth. Mae blaenoriaethu gweithgareddau wedi sicrhau bod adnoddau cymunedol a amser ar gael i gynnal y prosiectau sydd am fod y mwyaf effeithiol. Bu'r cydweithrediad rhwng y Cyngor a grwpiau gwirfoddol lleol yn effeithiol iawn gan gryfhau prosiectau lleol. Mae rhwydweithiau lleol wedi galluogi ymgysylltiad cryf â thrigolion ac adeiladu partneriaethau hirdymor. Bu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a gweithgareddau gwirfoddol yn llwyddiannus gyda mwy o drigolion yn cymryd rhan mewn cadwraeth a rheoli cynefinoedd gan wella bioamrywiaeth leol ac ansawdd y mannau gwyrdd cymunedol.
Beth fu'r rhwystrau?	- Cyfyngiadau ariannol: Nid bob amser oedd digon o gyllid ar gael i gynnal neu ddatblygu pob prosiect bioamrywiaeth. - Cyfyngiadau amser a staff: Fel cyngor cymuned bach, roedd y capasiti i gynnal prosiectau lluosog yn gyflym iawn yn gyfyngedig. - Nid pob aelod o'r gymuned oedd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol oherwydd amser neu ymrwymiadau personol.
Beth fyddwch yn ei newid?	- Blaenoriaethu prosiectau allweddol i sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu targedu'n effeithiol. - Creu fframwaith cynllunio hirdymor i ganiatáu gweithgareddau parhaus a llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd. - Annog mwy o drigolion i gymryd rhan drwy gweithgareddau hyblyg a hygyrch. - Darparu hyfforddiant ychwanegol i wirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i adeiladu gallu lleol a hyder.
Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?	Bydd y Cyngor yn monitro gweithgareddau a phrosiectau bioamrywiaeth gan adolygu cynnydd, canlyniadau a heriau prosiectau yn rheolaidd. Bydd y cynllun Ddyletswydd Adran 6 yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob 12 mis i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol i anghenion y gymuned a bioamrywiaeth leol.

	Yn ystod yr adolygiad blynyddol, bydd y Cyngor yn ystyried: • Beth sydd wedi gweithio'n dda a'r prosiectau llwyddiannus. • Rhwystrau a heriau a wynebwyd. • Gwersi a ddysgwyd a newidiadau angenrheidiol i gynyddu effeithiolrwydd gweithgareddau.

Grŵp	Disgrifiad o sefydliad mewn perthynas â bioamrywiaeth Sefydliadau:	Camau Gweithredu Sylfaenol	Enghreifftiau	Amcanion NRAP ar gyfer Adrodd ar gamau Gweithredu (Gweler Templedi)
1	• sy'n berchen neu'n meddiannu adeilad swyddfa yn unig • ac nad yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir.	Camau sy'n gysylltiedig a rheoli adeiladau, caffael, cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.	Comisynau, DVLA	Amcanion NRAP: **1, 4, a 6**
2	• sy'n berchen yn meddiannu neu'n rheoli eu adeiladau a'u tir eu hunain, • y mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig a bioamrywiaeth a/neu reoli tir, neu • sy'n gallu dylanwadu ar y rhai sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir.	Fel Grŵp 1 uchod A rheoli tir, rhaeadru meini prawf cyllido, darparu addysg a hyfforddiant	Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgolion, Chwaraeon Cymru	Amcanion NRAP: **1,4, a 6** *fel uchod* + Amcanion NRAP: **2, 3, a 5** *yn ymwneud â thir y sefydliad*
3	• sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir y tu hwnt I'w tir eu hunain, waeth a yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio.	Fel Grwpiau 1 a 2 uchod A rheoli tir er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.	Dŵr Cymru, Awdurdodau Lleol, CNC, Llywodraeth Cymru	Holl amcanion NRAP: **1,2,3,4,5 a 6**

Mae **Cyllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP)** yn gosod chwe amcan ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a dylid eu defnyddio i helpu i ddatblygu ac arwain gweithredoedd i gydymffurfio â dyletswydd adran 6:

Y **6 amcan** i gynnal a gwella bioamrywiaeth yw:

Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogi a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled y penderfyniadau a wneir ar bob lefel

Amcan 2: Diogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysicaf, a gwella'r modd y'u rheolir

Amcan 3: Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd, a chreu cynefinoedd

Amcan 4: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol sydd ar rywogaethau a chynefinoedd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n systemau monitro

Amcan 6: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflenwi